

Canllaw Addysg, Plant a Thrais Crynodeb o'r Argymhellion

1 Cadw plant mewn addysg

Pam? Mae bod mewn addysg yn fodd i amddiffyn plant rhag trais.

Gweithredoedd a argymhellir

- Cyflwyno strategaethau gwella presenoldeb sy'n seiliedig ar dystiolaeth (megis cyfarfodydd gyda rhieni/gofalwyr a chlybiau brecwast).
- Gweithredu cymorth ymddygiad ysgol gyfan wedi'i dargedu i leihau'r angen i wahardd plant.
- Darparu cymorth priodol i blant sydd wedi'u hatal dros dro ac sydd wedi'u gwahardd yn barhaol.



2 Darparu oedolion dibynadwy i blant

Pam? Gall perthnasoedd ystyrlon ag oedolion dibynadwy amddiffyn plant rhag trais.

Gweithredoedd a argymhellir

- Darparu gwasanaeth mentora un-i-un gan oedolion hyfforddedig i gefnogi plant agored i niwed.
- Ymgysylltu â phlant sy'n agored i niwed mewn chwaraeon gyda hyfforddwyr sy'n gallu eu cefnogi.



3 Datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant

Pam? Gall sgiliau cymdeithasol ac emosiynol effeithiol amddiffyn plant rhag trais.

Gweithredoedd a argymhellir

- Datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant gyda chwricwlwm cyffredinol, cymorth wedi'i dargedu a strategaethau ysgol gyfan.
- Darparu sesiynau lleihau trais mewn perthynasoedd i blant oedran uwchradd.
- Gweithredu strategaeth gwrth-fwllo.
- Cefnogi mynediad at therapi i'r plant hynny sydd angen cymorth ychwanegol.




4 Targedu ymdrechion yn y mannau a'r adegau lle mae trais yn digwydd

Pam? Mae trais yn digwydd yn amlach mewn rhai llefydd ac ar adegau penodol.

Gweithredoedd a argymhellir

- Arolwg plant a siarad â staff i benderfynu ble i ganolbwyntio eich ymdrechion.
- Cyfarfod â phartneriaid i ddeall y cyd-destun lleol a chydlynw eich ymateb o ran diogelu.



5 Ystyriwch strategaethau heb eu profi yn ofalus a cheisiwch osgoi dulliau niweidiol

Pam? Mae'n well cael adnoddau ar gyfer strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gweithredoedd a argymhellir

- Ystyriwch strategaethau heb eu profi yn ofalus (megis rhaglenni addysg cyflyll, hyfforddiant ymarfer sy'n ystyriol o drawma, a heddlu mewn coridorau ac ystafelloedd dosbarth).
- Ceisiwch osgoi dulliau y profwyd sy'n achosi niwed (fel rhaglenni ymwybyddiaeth carchardai).



Mae llawer o arweinwyr ysgolion, coleg a darpariaeth arall eisoes yn gweithredu nifer o'r argymhellion hyn. Rydym yn annog arweinwyr i barhau i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn a mireinio eu gweithredu yn unol â'r canllawiau hyn.